Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad yn dilyn monitro
# Lefel y dilyniant: gwelliant sylweddol

**Canolfan Addysgu a Dysgu Uwchradd Sir Gaerfyrddin**
**Parc Gittio**
**Heol Llwynhendy**
**Llwynhendy**
**Llanelli**
**Sir Gaerfyrddin**
**SA14 9DP**

**Dyddiad yr ymweliad: Ionawr 2017**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2017: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Y tîm monitro**

| | |
|---|---|
| Sw Roberts | Arolygydd Cofnodol |
| Jassa Scott | Arolygydd Tîm |

## Canlyniad yr ymweliad monitro

Bernir bod Canolfan Addysgu a Dysgu Uwchradd Sir Gaerfyrddin wedi gwneud cynnydd digonol mewn perthynas â'r argymhellion yn dilyn yr arolygiad craidd ym Medi 2016.

O ganlyniad, mae Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yn tynnu'r UCD oddi ar y rhestr o UCDau y mae angen gwelliant sylweddol arnynt.

## Cynnydd ers yr arolygiad diwethaf

### Argymhelliad 1: Mynd i'r afael â'r pryderon ynghylch diogelu a godwyd yn ystod yr arolygiad

Cynnydd da iawn wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad

Mae'r UCD wedi mynd i'r afael â'r pryderon ynghylch diogelu a godwyd yn ystod yr arolygiad. Mae polisïau diogelu wedi cael eu hadolygu ac maent yn bodloni'r gofynion. Mae lefelau staffio wedi cynyddu ac mae hyn yn galluogi goruchwylio disgyblion yn well mewn gwersi a thu allan i wersi. Er enghraifft, os oes angen i ddisgyblion adael y safle i brynu cinio, neu os ydynt yn cymryd rhan mewn gweithgareddau gwahanol i ffwrdd o'r safle, mae aelod o staff yn mynd gyda nhw.

Mae asesiadau risg ymddygiad unigol wedi cael eu diweddaru a chaiff unrhyw ymyriadau corfforol eu cofnodi, ac adroddir yn ôl amdanynt yn briodol. Mae pob un o'r staff yn glir ynghylch sut i ymateb i ymddygiad gwael, ac mae'r UCD wedi datblygu ystod dda o ymyriadau llythrennedd emosiynol i staff eu defnyddio pan na fydd disgyblion yn ymgysylltu â gwers. Caiff amser allan o wersi ei gofnodi a'i ddadansoddi.

### Argymhelliad 2: Gwella presenoldeb disgyblion

Cynnydd boddhaol wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad

Mae systemau cadarn gan yr UCD i gofnodi, rhannu a dadansoddi data presenoldeb. Mae gan uwch reolwyr a staff ddealltwriaeth dda o dueddiadau presenoldeb ar gyfer disgyblion unigol ac ar draws y ddau safle. Mae'r UCD wedi gweithio'n dda â'r gwasanaeth lles addysg i roi dealltwriaeth i staff o'r rhwystrau a'r ysgogwyr ar gyfer presenoldeb, a dulliau defnyddiol i wella presenoldeb. Roedd uwch reolwyr yn defnyddio holiadur buddiol gyda disgyblion â lefel presenoldeb isel er mwyn archwilio beth allai eu helpu nhw i fynychu mwy.

Mae'r UCD yn gwneud defnydd da o ystod o wybodaeth sydd ganddi i wneud gwelliannau sy'n cynorthwyo presenoldeb. Er enghraifft, nododd fod presenoldeb yn arbennig o isel ar ddydd Gwener ar safle Pwll, felly newidiodd staff y gweithgareddau a ddilynir y diwrnod hwnnw, ac mae hynny wedi gwella presenoldeb.

Mae staff yn defnyddio'r system wobrwyo yn effeithiol i annog presenoldeb da. Mae pob un o'r disgyblion yn ymwybodol o'u targedau presenoldeb, ac mae dealltwriaeth gadarn gan ran fwyaf y disgyblion o'r effaith a gaiff presenoldeb gwael ar eu gallu i

gyflawni eu nodau, fel mynd i'r coleg. Mae tua hanner y disgyblion presennol wedi gwella eu presenoldeb dros y flwyddyn ddiwethaf. Roedd mwyafrif y disgyblion Blwyddyn 11 a adawodd yn 2016 wedi gwella eu presenoldeb o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Mae'r UCD yn defnyddio ystod dda o strategaethau i gynorthwyo disgyblion i fynychu, yn cynnwys cwricwlwm mwy pwrpasol ac ymyriadau therapiwtig. Yn benodol, mae staff wedi gweithio'n galed i ennyn diddordeb rhieni yn well, er enghraifft trwy ddiwrnod lles llwyddiannus a ddaeth â rhieni i mewn i'r ganolfan. Fodd bynnag, nid yw'r lefel presenoldeb gyffredinol, sef 67% ar gyfer y flwyddyn gyfredol, yn gwella.

**Argymhelliad 3: Gwella ymddygiad disgyblion a sicrhau bod pob un o'r staff yn rheoli ymddygiad disgyblion yn gyson**

Cynnydd cryf wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad

Mae'r UCD wedi canolbwyntio'n dda ar ddarparu dealltwriaeth well i staff o lythrennedd emosiynol disgyblion drwy hyfforddiant ac ymweliadau â darparwyr eraill. Ceir ystod eang o adnoddau ac ymyriadau i gefnogi llythrennedd emosiynol, ac mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar ymddygiad a rheoli ymddygiad. Mae'r UCD wedi ymgysylltu'n dda â phrosiect Cynnydd i ehangu ystod y cymorth ac ymyriadau therapiwtig sydd ar gael i helpu disgyblion i reoli eu hemosiynau. Defnyddir y strategaethau a'r ymyriadau hyn mewn modd amserol i helpu tawelu disgyblion a'u cefnogi i ddychwelyd i wersi.

Mae'r UCD yn datblygu dull o gynllunio'r cwricwlwm sy'n canolbwyntio mwy ar y person ar gyfer disgyblion unigol. Yn y dull hwn, mae disgyblion dynodedig sydd wedi ymddieithrio o ddysgu yn gweithio gyda staff i ddylunio amserlen bwrpasol o weithgareddau oddi ar y safle, wedi'u teilwra yn ôl eu hanghenion a'u diddordebau. Mae hyn wedi cael effaith dda ar yr ymddygiad a'r presenoldeb ar gyfer y grŵp hwn o ddisgyblion.

Roedd uwch reolwyr, staff a disgyblion i gyd yn gysylltiedig ag adolygu'r polisi rheoli ymddygiad. Ceir system glir o wobrau a chosbau y mae pawb yn ei deall ac a gymhwysir yn gyson. Mae systemau TG gwell ar gyfer cofnodi gwobrau a chosbau, ac mae hyn yn golygu bod gan bob un o'r staff ddealltwriaeth ddiweddar o ymddygiad ar draws y ddau safle.

Yn ystod yr arolygiad, roedd disgyblion yn ymgysylltu'n dda â gwersi. Roedd perthnasoedd adeiladol a chefnogol rhwng staff a disgyblion. Mae staff a disgyblion yn gwybod y rheolau, ac atgyfnerthir y rhain drwy wobrau a chosbau.

Mae nifer y gwaharddiadau cyfnod penodol wedi lleihau, er bod yr amser a gollir drwy'r rhain yn dal yn rhy uchel i ychydig iawn o ddisgyblion.

**Argymhelliad 4: Gwella'r broses hunanarfarnu ac ansawdd hunanarfarnu**

Cynnydd da iawn wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad

Mae arweinwyr wedi sefydlu diwylliant cadarn o hunanarfarnu. Maent wedi cyflwyno cylch defnyddiol o weithgareddau sicrhau ansawdd i fonitro ac adolygu gwaith yr

UCD. Mae'r rhain yn cynnwys craffu ar lyfrau, arsylwadau o wersi a dadansoddi data. O ganlyniad, mae dealltwriaeth ragorol gan yr UCD o'i chryfderau a'i meysydd gwan. Mae barnau hunanarfarnu cyn-arolygiad yr UCD yn cyfateb i ddeilliannau'r arolygiad.

Gwna bob un o'r staff gyfraniad gwerthfawr at brosesau hunanarfarnu. Maent yn cyfarfod yn rheolaidd i drafod cynnydd yn erbyn targedau ysgol gyfan a'r argymhellion o'r arolygiad. Mae athrawon yn darparu arfarniadau pwnc cynhwysfawr. Maent yn dechrau gwneud defnydd da o arfer eu cymheiriaid, er enghraifft wrth ddefnyddio technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh).

Mae cysylltiadau clir rhwng hunanarfarnu a datblygiad proffesiynol yn sicrhau bod staff yn derbyn cymorth a hyfforddiant targedig yn unol ag anghenion dynodedig. Mae'r cynllun datblygu yn nodi blaenoriaethau priodol ar gyfer datblygu. Mae'n nodi camau gweithredu addas sy'n debygol o sicrhau'r gwelliannau a gynlluniwyd.

Mae cyfarfodydd briffio dyddiol a chyfathrebu da ar draws y ddau safle yn galluogi staff i fyfyrio'n barhaus ar eu harfer a sicrhau gwelliannau cynyddol. Mae ansawdd y cyfathrebu ar draws y staff yn nodwedd dda o waith yr UCD.

**Argymhelliad 5: Sicrhau bod yr UCD, y pwyllgor rheoli a'r awdurdod lleol yn gweithio'n effeithiol â'i gilydd i godi safonau**

Cynnydd da iawn wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad

Ers yr arolygiad, mae cydweithio agos wedi datblygu rhwng yr UCD, y pwyllgor rheoli, yr awdurdod lleol a chonsortiwm ERW. Mae hyn wedi arwain at gymorth cyffredinol gwell i'r UCD, er enghraifft i gynyddu staffio a sicrhau safle newydd.

Mae'r panel gwelliant, a sefydlwyd ar ôl yr arolygiad, wedi helpu ysgogi'r cynnydd a wnaed yn yr UCD. Mae ei aelodau, gan gynnwys cadeirydd y pwyllgor rheoli, yn wybodus iawn ynglŷn â chryfderau'r UCD a meysydd i'w datblygu. Defnyddiant y wybodaeth hon yn effeithiol i herio a chynorthwyo'r UCD i gynllunio gwelliannau. Maent yn monitro effaith gwelliannau'n ofalus. Er enghraifft, maent yn gwybod fod cwricwlwm pwrpasol yn helpu i ennyn diddordeb disgyblion a'u cymell i fynychu a chyflawni.

Mae'r rhwydwaith cymorth i'r UCD wedi ehangu'n sylweddol o ganlyniad i'r gwaith partneriaeth gwell gyda'r awdurdod lleol ac ERW. Mae hyn wedi arwain at gysylltiadau gwell gydag ysgolion y brif ffrwd a mynediad gwell at hyfforddiant, gan gynnwys mewn llythrennedd, rhifedd a TGCh ar draws y cwricwlwm. Mae'r cyfleoedd hyn i ddysgu o arfer pobl eraill wedi cynyddu medrau a hyder staff wrth ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh disgyblion o fewn eu meysydd pwnc eu hunain. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar ddisgyblion. Er enghraifft, mae'r defnydd cynyddol o TGCh mewn mathemateg wedi bod yn ysgogol iawn i ychydig o ddisgyblion.

**Argymhelliad 6: Gwella'r adeiladau i sicrhau eu bod yn darparu amgylchedd diogel ac yn bodloni anghenion dysgu disgyblion**

Cynnydd boddhaol wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad

Ers yr arolygiad, gwnaed gwelliannau i'r adeiladau i wneud yn siŵr eu bod yn darparu amgylchedd diogel ar gyfer dysgu. Fodd bynnag, mae'r bwriad i symud i safle unigol, newydd yn y dyfodol agos wedi golygu mai dim ond mân waith hanfodol sydd wedi'i wneud.

Mae'r safle newydd yn darparu ystafelloedd dosbarth eang, digonol ac ardaloedd eraill, gan gynnwys cegin ac ystafell gyffredin. Bwriedir cwblhau'r gwaith mewn pryd i'r disgyblion ddechrau'r broses o symud i mewn ar ôl y gwyliau hanner tymor.

**Argymhelliad 7: Gwella'r ddarpariaeth TGCh ar draws y cwricwlwm**

Cynnydd boddhaol wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer TGCh ar draws y cwricwlwm wedi gwella. Mae'r UCD wedi buddsoddi mewn adnoddau addas, ac mae pob aelod o staff wedi cael hyfforddiant i'w cynorthwyo i ddatblygu defnydd disgyblion o TGCh fel offeryn dysgu effeithiol.

Mae'r defnydd o TGCh ar draws y cwricwlwm yn datblygu'n dda. Mae craffu ar waith disgyblion yn dangos eu bod yn defnyddio medrau prosesu geiriau yn dda i ysgrifennu darnau o waith estynedig mewn gwersi TGAU Saesneg. Mewn mathemateg, mae disgyblion yn defnyddio adnodd ar-lein yn hyderus, a gallant ei ddefnyddio gartref hefyd i gwblhau gwaith cartref. Mewn gwaith cyfryngau, mae disgyblion yn creu animeiddiadau diddorol sy'n cynnwys gwaith camera a fideo. Mewn TGAU Celf, mae disgyblion yn gwneud defnydd da o ymchwil ar-lein i gefnogi eu portffolio datblygol.

Gall disgyblion ennill achrediad a gydnabyddir yn genedlaethol i ddangos effeithiolrwydd eu medrau o ran defnyddio ystod o ddyfeisiau TGCh fel gliniaduron a llechi, ac amrywiaeth o feddalwedd. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i farnu deilliannau achrededig disgyblion.

**Argymhellion**

Er mwyn cynnal y cynnydd hwn a gwella arno, dylai'r UCD barhau i gynnal lefel y cynnydd y mae eisoes wedi'i wneud, a pharhau i fynd i'r afael â'r argymhellion arolygu hynny lle mae angen gwneud cynnydd pellach.